# Deddf Trwyddedu 2003

## Nodiadau Canllaw Cynlluniau Eiddo

Wrth gyflwyno cais ar gyfer y canlynol:

1. Trwydded Eiddo

2. Trwydded Eiddo Clwb

3. Mân amrywiadau ac amrywiadau llwyr (os yn berthnasol)

Mae'n rhaid i chi gynnwys gyda'ch cais gynllun o'r eiddo. Mae'n rhaid i'r cynllun fod i raddfa benodol, er enghraifft, 1:100 a chynnwys manylion sydd wedi'u nodi gan y Rheoliadau i'r Ddeddf Trwyddedu.

Dylai'r cynllun gynnwys y manylion canlynol:

a) maint ffin yr adeilad, os yn berthnasol, ac unrhyw waliau allanol a mewnol yr adeilad ac, os yn wahanol, perimedr yr eiddo;
b) lleoliad pwyntiau mynediad ac allanfa o'r eiddo;
c) os yn wahanol i is-baragraff (3)(b), lleoliad y llwybrau dianc o'r eiddo;
d) mewn achos lle bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedig, yr ardal o fewn yr eiddo a ddefnyddir ar gyfer pob gweithgaredd;
e) strwythurau sefydlog (gan gynnwys dodrefn) neu wrthrychau tebyg dros dro mewn lleoliad sefydlog (ond nid dodrefn) a allai effeithio ar allu unigolion yn yr eiddo i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc heb rwystr;
f) mewn achos lle mae'r eiddo yn cynnwys llwyfan neu ardal wedi'i chodi, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu ardal oddi wrth y llawr;
g) mewn achos lle mae'r eiddo yn cynnwys unrhyw stepiau, grisiau neu lifftiau, lleoliad y stepiau, grisiau neu lifftiau;
h) mewn achos lle mae'r eiddo yn cynnwys unrhyw ystafell neu ystafelloedd gyda chyfleusterau cyhoeddus, lleoliad yr ystafell neu'r ystafelloedd;

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

i) lleoliadau a math unrhyw offer diogelwch tân ac unrhyw offer diogelwch arall gan gynnwys, os yn berthnasol, offer diogelwch morol; a
j) lleoliad cegin, os oes yna un yn yr eiddo.

Gall y cynllun gynnwys cyfeiriad allweddol at yr holl faterion a nodwyd uchod.